



Y Cyngorydd Heledd Fychan

Heledd.Fychan@rctcbc.gov.uk

9 Mawrth 2022

Annwyl Gyngorydd Fychan,

Diolch am gyflwyno deisebau mewn perthynas ag ystod o faterion. Mae'r ymateb yma'n mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o faterion ac yn cynnwys mewnbwn gan nifer o feysydd gwasanaeth, gan gynnwys;

Materion amrywiol - Ffyrdd a Phalmentydd Graig-wen a Llygredd Aer Heol Berw

Bydd ymateb pellach a fydd yn trafod y materion sy'n weddill ac sy'n gysylltiedig â mesurau rheoli traffig, diogelwch y ffyrdd, parcio ac ati, yn cael ei ddarparu maes o law.

Safleoedd Bysiau a Gwasanaethau Bysiau yn ardal Graig-wen

O ran y materion a godwyd mewn perthynas â gwasanaethau bysiau a safleoedd bysiau yn ardal Graig-wen, mae CBSRhCT, gyda chymorth Cyngor Tref Pontypridd, wedi adeiladu cysgodfa newydd. Nid yw'r gysgodfa yn gwbl caeëdig gan y byddai hyn yn cyfyngu ar allu'r defnyddiwr i weld y bws yn cyrraedd. Mae'r Cyngor hefyd wrthi'n cyflawni gwaith llwybr troed ar y llain las i sicrhau bod modd cael mynediad i lwybr diogel a gwrth-lithr cyn yr haf gan sicrhau mynediad gwell i'r gysgodfa bysiau.

Daeth gwasanaethau gyda'r hwyr i ben ar 2 Tachwedd 2014 yn ardal Graig-wen, ynghyd â nifer o ardaloedd eraill, ar ôl i'r Cyngor dderbyn gostyngiad sylweddol mewn cyllid o ganlyniad i gynni mawr. Ers hynny, mae'r Cyngor wedi llwyddo i gynnal cyllid ar gyfer y rhwydwaith bysiau lleol sy'n weddill, ond nid oes cyllid ar gael ar hyn o bryd i gefnogi'r broses o ailgyflwyno'r gwasanaethau yn ardal Graig-wen, heb dorri gwasanaethau eraill.

Mae pandemig Covid-19 wedi effeithio ar hyfywedd masnachol yr holl wasanaethau bysiau, ac mae angen cyllid sylweddol gan Gynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau Llywodraeth Cymru i gefnogi gweithredwyr bysiau wrth iddyn nhw geisio adennill y refeniw a gollwyd o ganlyniad i'r nifer is o deithwyr yn ystod y pandemig. Nid yw'n glir ar hyn o bryd p'un a fydd cytundeb BES2 yn cael ei ymestyn a ph'un a fydd y cynnydd yn nifer y teithwyr wrth i bwysau Covid fynd yn llai yn gwella hyfywedd a'r posibilrwydd o ehangu gwasanaethau.

Ein bwriad ar hyn o bryd yw sicrhau bod yr holl deithiau sydd wedi'u hamserlenni yn gweithredu mewn modd dibynadwy ac ailgyflwyno Rhwydwaith Gyfeirio Chwefror 2020. Fodd bynnag, mae'r broses adfer yn arafach na'r disgwyl ac mae Cytundeb BES 2 yn dod i ben ar 31 Gorffennaf 2022,

felly mae'n bwysig ein bod ni'n sicrhau mecanwaith cyllido ar gyfer y dyfodol a chytundeb sy'n cynnal a diogelu darpariaeth y rhwydwaith craidd.

Mae cefnogi gwasanaethau'r bysiau drwy'r Pandemig yn parhau i fod yn dasg gymhleth ac mae'r dyfodol yn parhau i fod yn ansicr iawn. Er hynny, hyderaf fod hyn yn esbonio cyd-destun y problemau sy'n cael eu hwynebu a'r cyfleoedd cyfyngedig sydd gan y Cyngor i gefnogi gwelliannau o'r fath ar hyn o bryd.

Nid yw'r cais i ymestyn y gwasanaeth bysiau cyfredol yn hyfyw ar hyn o bryd o ganlyniad i faint y cerbyd sy'n gweithredu ar lwybr i'r cyhoedd a'r cyfyngiadau ynghylch ble mae modd i'r cerbyd yma wasanaethu oherwydd y cynnydd yn nifer y ceir sydd wedi'u parcio ar y stryd a gan fod trigolion yr ardal yn gwrthwynebu caniatáu bysiau i deithio ar hyd y strydoedd cyfagos yma.

Mae gwasanaeth newydd sy'n defnyddio cerbydau llai yn cael ei gyflwyno ym Mharc Graig-wen yn y dyfodol agos ac o ganlyniad i hynny bydd modd i drigolion fanteisio ar y gwasanaeth, fydd ar gael i'r cyhoedd, o ben bryn Graig-wen.

Pryderon ynghylch Ansawdd Aer - Heol Berw

Mae'r Awdurdod Lleol yn monitro ansawdd aer yr amgylchedd awyr agored yn rheolaidd yn RhCT ac mae canlyniadau'r gwaith monitro yma yn cael eu cymharu ag Amcanion Ansawdd Aer sy'n seiliedig ar iechyd. Mae'r rhwydwaith monitro yn cael ei fonitro yn rheolaidd i bennu'r lleoliadau mwyaf perthnasol i'w monitro, o ran canllawiau statudol, asesiadau blaenorol a gwybodaeth leol. Mae'r gwaith monitro wedi dangos bod ansawdd yr aer yn dda yn y mwyafrif helaeth o RCT, mae nifer cyfyngedig o ardaloedd sydd ag ansawdd aer gwael.

Rydyn ni'n cydnabod ei bod hi'n bosibl bod Nitrogen Deuocsid, llygrydd aer sy'n aml yn gysylltiedig ag allyriadau traffig ffordd, yn uwch mewn rhai lleoliadau. Mae hyn yn dibynnu ar faint o draffig sydd ar y ffordd, agosrwydd adeiladau/pobl, a'r amgylchedd adeiledig cyfagos. O ran gwaith monitro ansawdd aer yr amgylchedd sydd wedi'i gynnal ar hyd Heol Berw ger ei chyffordd â Stryd y Taf/Stryd y Bont (mae data dros dro ar gael ar wefan [Ansawdd Aer yng Nghymru](#)), ystyrir ei bod hi'n annhebygol y bydd ansawdd aer ar hyd Heol Berw (lle mae poblogaeth berthnasol yn bresennol) yn mynd y tu hwnt i'r Amcan Ansawdd Aer (fel sydd wedi'i bennu gan Lywodraeth Cymru). Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn parhau i fonitro'r sefyllfa. Wrth i'r broses adfer yn dilyn COVID-19 barhau, bydd angen asesu'r effaith bosibl y bydd hyn yn ei chael ar ansawdd aer yn lleol. Bydd yn ceisio rhoi ystyriaeth bellach yn rhan o Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer 2022 (mae disgwyl i'r adroddiad yma gael ei gyhoeddi ym mis Medi 2022). Er bod yr ardal yn parhau i gydymffurfio â'r Amcanion Ansawdd Aer, mae'r Cyngor yn parhau i gydnabod bod parhau i wella ansawdd aer yn ddymunol er budd iechyd y cyhoedd ac amwynderau lleol.

O ran ailagor y Bont Wen, gan ystyried y nifer fach o gerbydau oedd yn gysylltiedig â'r llwybr yma yn y gorffennol, mae'n debygol y byddai symud defnyddwyr y ffordd i ffordd o rannau o Heol Berw yn cael effaith fach iawn o ran gwella ansawdd aer Heol Berw yn y lleoliad sy'n wynebu'r risg fwyaf. Fodd bynnag, mae disgwyl i raglenni cyfredol sy'n ceisio darparu cynlluniau ehangach gan gynnwys cynlluniau ar gyfer teithio llesol yn y gymuned, trafndiaeth gyhoeddus gynaliadwy a thrydaneiddio cerbydau (gan gynnwys cerbydau RhCT a cherbydau Trafnidiaeth Gyhoeddus) arwain at wella'r ansawdd aer lleol yn gyffredinol ledled Rhondda Cynon Taf. Mae hefyd yn wir bod modd i gymunedau lleol gyfrannu at newid cadarnhaol hefyd; mae gwefan Clean Air Hub yn cynnig llawer o gyngor ynghylch pa gamau gweithredu y mae modd i bobl a'u cymunedau lleol eu cymryd i wella ansawdd aer lleol.

Er hynny, yn dilyn effaith niweidiol Storm Dennis a arweiniodd at gau'r bont yn y lle cyntaf, mae gwaith wedi cael ei gynnal i sefydlogi'r bont ac mae bellach wedi ailagor ar gyfer cerbydau. Bydd gwaith pellach yn cael ei gynnal yn yr haf a bydd angen cau'r bont yn sgil hynny. Mae'r gwaith yma'n cynnwys gwaith atgyweirio mawr i strwythur y bont, bydd y gwaith yn sicrhau y bydd modd i'r cyhoedd ddefnyddio'r bont yma am flynyddoedd i ddod.

O ran cyflwr llwybrau troed; mae'r Cyngor wedi buddsoddi £84 miliwn er mwyn cynnal a chadw seilwaith y priffyrdd yn ystod y 9 mlynedd diwethaf - mae hyn ymhlith y buddsoddiad mwyaf gan unrhyw Gyngor yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiad sylweddol a chyson ar gyfer llwybrau troed ac mae'r gwaith yn cael ei gyflawni yn ôl blaenoriaeth ledled RhCT. O ganlyniad i hynny, does dim cynllun penodol i wella llwybrau troed yn ardal Graig-wen, mae'n rhan o ddull Cyngor cyfan. Caiff yr holl lwybrau troed ledled y Fwrdeistref Sirol eu harchwilio'n gyson a chaiff unrhyw ddiffygion sy'n cynrychioli perygl sylweddol i ddefnyddwyr eu hatgyweirio. Yn ystod yr archwiliadau yma sydd wedi'u hamserlenni, cynhelir asesiad o gyflwr cyffredinol pob rhan o'r llwybr troed. Caiff yr asesiadau yma'u defnyddio i lywio rhaglen gyfalaf y Cyngor ar gyfer llwybrau troed. Mae'r rhan fwyaf o lwybrau troed Graig-wen wedi'u cynnwys mewn categorïau sy'n nodi nad yw'r llwybrau troed yn ddiffygiol o ran strwythur neu'n weithredol, er eu bod nhw'n hen ac wedi'u defnyddio ers blynyddoedd lawer. Os bydd diffygion o'r fath yn cael eu nodi ar unrhyw ran o'r llwybr, byddwn ni'n ystyried ei chynnwys yn rhan o'r rhaglen waith gyfalaf. Mae rhagor o gynlluniau y mae modd eu cyflawni gydag adnoddau sydd ar gael wedi'u nodi ledled y fwrdeistref sirol ac o ganlyniad i hynny, rhaid blaenoriaethu'r cynlluniau yma. Mae modd rhoi gwybod i'r Cyngor am ddiffygion unigol neu rannau o lwybrau troed sydd mewn cyflwr gwael ar unrhyw adeg a byddan nhw'n cael eu harchwilio i benderfynu p'un a oes angen gwaith adweithiol er mwyn sicrhau bod yr ardal yn ddiogel.

Hyderaf fod yr uchod o gymorth i chi a dyma gadarnhau y bydd ymateb pellach sy'n trafod y materion traffig a godwyd gan ddeisebwyr yn cael ei ddarparu maes o law.

Yn gywir

A. Morgan

Y Cynghorydd Andrew Morgan
Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Councillor Andrew Morgan
Leader of Rhondda Cynon Taf County Borough Council

Swyddfa'r Cabinet Cabinet Office
Y Pafiliynau, The Pavillions,
Cwm Clydach, Tonypany,
CF40 2XX

Ffôn/Tel: 01443 424065
E-bost/Email: Cabinet@rctcbc.gov.uk
Rhyngwladol/International: +44 1443
424065/6

Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e. Cymraeg neu ddwyieithog. We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.



MAE EICH DATA O BWYS
www.rctcbc.gov.uk/diogeludata **YOUR DATA**
MATTERS www.rctcbc.gov.uk/dataprotection

